**EOC-07-01(p.3a)**

## Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 31 Hydref 2001** |
| **Amser** | **9.30am** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |

# SIPSIWN-CRWYDROL: POLISI YNG NGHYMRU: PAPUR YSTYRIAETHAU AR GYFER PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

## CEFNDIR

1. Gosodwyd y cyfeiriad polisi bras y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei ddilyn ar hyn o bryd tuag at Sipsiwn-Crwydrol yn nyddiau'r cyn Swyddfa Gymreig. Mae'r papur hwn yn defnyddio'r ymadrodd Sipsiwn-Crwydrol i gynnwys Crwydrwyr, Sipsiwn a Sipsiwn-Crwydrol.

2. Mae sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol wedi creu'r cyfle am newid sylfaenol yn y modd y mae polisi yn cael ei ddatblygu ac er mwyn adlewyrchu anghenion penodol Cymru. Mae 4 prif egwyddor yn sail i waith y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn gyntaf, gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol, busnes, y sector gwirfoddol a chyrff cyhoeddus eraill;

Yn ail, llywodraethu da. Lle bo modd, rhesymoli a symleiddio gweithdrefnau a hybu gweithio trawsffiniol;

Yn drydydd, gweithio strategol. Hynny yw, darparu fframweithiau o fewn y rhain y gall eraill weithredu yn lleol; ac

Yn olaf, ac efallai yn bwysicach o safbwynt y Sipsi-Crwydrol, bod yn gynhwysol trwy gydnabod anghenion pob grwp cymdeithasol.

3. Yn ôl Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol ddal sylw ar yr egwyddor y dylai bod cydraddoldeb cyfle i bawb. Yn ôl Deddf 1998 mae'n ofynnol i'r Cynulliad asesu pa mor effeithiol y mae wedi bod ar draws ei amrediad o gyfrifoldebau wrth gwrdd â'r amcan hwn.

4. Mae'n bwysig bod yr egwyddorion hyn yn dylanwadu ar ymagwedd y Cynulliad tuag at Sipsiwn-Crwydrol. Mewn rhai achosion fodd bynnag mae'n bosibl y gallai newid mewn ymagwedd ofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Nodir yr achosion hyn isod lle bo hynny'n berthnasol.

## POLISI PRESENNOL

5. Ar hyn o bryd nid oes gan unrhyw ran o'r Cynulliad gyfrifoldeb cyfan gwbl am bolisi Sipsiwn-Crwydrol ac nid oes gan unrhyw unigolyn dynodedig gyfrifoldeb arweiniol na chydlynol. Mae polisi Sipsiwn-Crwydrol wedi'i rannu rhwng nifer o adrannau polisi'r Cynulliad - Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Leol, Tai, Iechyd, yr Amgylchedd, Cynllunio a'r Uned Polisi Cydraddoldebau. Nid yw rhai o'r meysydd hyn, megis yr Amgylchedd a Thai, yn gwahaniaethu yn benodol rhwng gofynion Sipsiwn-Crwydrol a gofynion grwpiau eraill neu yn wir y boblogaeth yn gyffredinol.

6. Un cwestiwn sy'n codi felly yw a oes angen darpariaeth benodol er mwyn diwallu anghenion Sipsiwn-Crwydrol yn y meysydd gwasanaeth hyn, er enghraifft, mewn meysydd megis y Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn darparu cymorth i aelodau o deuluoedd Sipsiwn-Crwydrol sydd ag anabledd corfforol neu sy'n aelodau hyn o'r teuluoedd.

7. Mae'r meysydd penodol lle y mae darpariaethau wedi'u gwneud ar gyfer Sipsiwn-Crwydrol yn cynnwys addysg a chyflogaeth, iechyd, safleoedd, cynllunio a threfniadau troi allan. Caiff y rhain eu hystyried yn eu tro.

## Addysg

8. Mae plant Sipsiwn-Crwydrol yn wynebu nifer o anfanteision, megis dysgu bylchog a phroblemau yn codi mewn ysgolion megis bwlio a all, pan fo'n digwydd, olygu eu bod yn gyndyn o fynd i'r ysgol. Ceir anawsterau hefyd mewn perthynas â derbyn y plant hyn i ysgolion penodol, anawsterau o ran cludiant i ysgolion ac oddi yno sydd unwaith eto yn eu gwneud yn gyndyn o fynd i'r ysgol, a pherthnasedd y cwricwlwm i blant Sipsiwn-Crwydrol. Un agwedd y gellid ei hystyried yw a oes angen darpariaeth heblaw am addysg brif ffrwd yn seiliedig ar ysgol a fyddai'n sefydlu cysylltiadau rhwng safleoedd cartref Sipsiwn-Crwydrol a'r ysgol ac yn cefnogi'r broses drosglwyddo i addysg amser llawn. Ar hyn o bryd nid oes pwer cyfreithiol i fynnu cefnogaeth uniongyrchol ar gyfer addysg yn y cartref. Mae'r pwer ar gael i awdurdodau lleol os ydynt yn dewis ei ddefnyddio, ond nid oes unrhyw reidrwydd arnynt wneud hynny.

9. Helpodd y cyn Swyddfa Gymreig noddi astudiaeth i addysg plant Sipsiwn-Crwydrol - "Travellers' Children and Educational Needs in Wales". Adolygodd yr ymchwil brofiad Sipsiwn-Crwydrol o addysg a cheisio darparu amcangyfrif o'r nifer o blant Sipsiwn-Crwydrol yng Nghymru. Cynigiodd yr adroddiad nifer o newidiadau yn yr ymagwedd tuag at addysg Sipsiwn-Crwydrol yng Nghymru, megis gwell cysylltiad rhwng ysgolion a Sipsiwn-Crwydrol a chodi ymwybyddiaeth athrawon o ddiwylliannau'r Sipsi-Crwydrol a'u pryderon ynghylch mynd i'r ysgol. Gadawyd y mater o weithredu'r argymhellion i awdurdodau lleol ac ni chyhoeddwyd unrhyw ganllawiau i AALl gan y Swyddfa Gymreig. Sefydlwyd gweithgor bychan, fodd bynnag, er mwyn ystyried y ffordd orau o fynd â'r ystyriaethau a bwysleisiwyd yn yr adroddiad yn eu blaenau a chynhaliwyd seminar ar waith y Gwasanaeth Addysg i Grwydrwyr yng Nghymru ym mis Mehefin 2000.

10. Dangosodd yr astudiaeth fod mwy o blant Sipsiwn-Crwydrol yng Nghymru nag yr oedd amcangyfrifon blaenorol wedi awgrymu. Canlyniad hyn oedd dyblu'r grant Adran 488 ar gyfer addysg Sipsiwn-Crwydrol o £150,000 i £300,000 yn 1999-2000. Y gyllideb bresennol ar gyfer addysg Sipsiwn-Crwydrol yw £400,000. Mae'r grantiau yn cyfrannu 75% o'r gost o ddarparu athrawon mewn ysgolion ac athrawon peripatetig, staff ymgynghorol, swyddogion lles addysg, llyfrau, offer a chludo plant Sipsiwn-Crwydrol i ysgolion. Mae AALl yn gorfod gwneud cais am y grant bob blwyddyn. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr lle caiff y grantiau eu dyrannu am dair blynedd. Mae pwysau ar hyn o bryd gan lywodraeth leol a mudiadau Sipsiwn-Crwydrol yn Lloegr am i'r cyfnod o nawdd grant gael ei ymestyn i 5 mlynedd.

11. Hyd yn hyn 10 awdurdod yn unig yng Nghymru sydd wedi gwneud cais am gefnogaeth. Mae dosbarthiad daearyddol yr awdurdodau sy'n gwneud cais am y grant yn cyfateb i'r llwybrau traddodiadol a ddilynir gan Sipsiwn-Crwydrol i mewn i Gymru ac oddi yma - ar hyd goridor yr A55 yng Ngogledd Cymru a'r M4 yn Ne Cymru. Yn Lloegr, cyfunwyd y grant Adran 488 â'r grant Adran 11 ar gyfer lleiafrifoedd ethnig. Mae angen asesu manteision ac anfanteision cadw grant ar wahân. Mae Cyfarwyddiaeth Addysg y Cynulliad yn ddiweddar wedi cychwyn ar adolygiad o'r trefniadau presennol ar gyfer ariannu addysg Sipsiwn-Crwydrol, gan gynnwys y drefn ar gyfer gweithredu'r grant Adran 488.

12. Mae dulliau gweithredu eraill sy'n adeiladu ar enghreifftiau o ymarfer da yn cynnwys:

- y ddarpariaeth o addysg mewn ysgolion ar gyfer Sipsiwn-Crwydrol megis cefnogaeth yn y maes, cyfleusterau addysgol ar safleoedd, a gwasanaethau addysgol arbennig ar gyfer plant Sipsiwn-Crwydrol;

- gweithredu strategaethau gwrth-fwlio mewn perthynas â phlant Sipsiwn-Crwydrol a hyfforddi athrawon mewn ystyriaethau sy'n ymwneud â phlant Sipsiwn-Crwydrol a'u diwylliannau;

- y ddarpariaeth o wybodaeth fanwl gywir am y nifer o blant Sipsiwn-Crwydrol a sut y gallant fanteisio ar wasanaethau addysgol. Cynigiodd adroddiad Senedd yr Alban ar Grwydrwyr y dylid ystyried Crwydrwyr fel grwp ethnig ar wahân gyda'u dangosyddion perfformiad addysgol eu hunain;

- lledaenu ymarferion da o ran addysgu plant Sipsiwn-Crwydrol a'r ddarpariaeth o ganllawiau gan y Cynulliad Cenedlaethol.

13. Yn ogystal â'r problemau sy'n gysylltiedig ag addysg gynradd ac uwchradd, cyfleon cyfyngedig sydd gan Sipsiwn-Crwydrol i wella eu llythrennedd a chael hyfforddiant mewn sgiliau ar gyfer gwaith. A ddylid gwneud darpariaeth arbennig er mwyn darparu hyfforddiant llythrennedd a sgiliau i Sipsiwn-Crwydrol - o bosibl drwy ddarparu dosbarthiadau llythrennedd i deuluoedd a gwneud darpariaeth benodol mewn ambell sefydliad addysgol?

## Cyflogaeth

14. Yn ail, ac yn dwyn perthynas agos ag addysg, y mae'r cyfleon am waith sydd ar gael i blant Sipsiwn-Crwydrol. O ystyried y cyfleon cyfyngedig i fanteisio ar addysg, y lefelau isel o gyrhaeddiad academaidd a'r lefel uchel o gamwahaniaethu yr unig waith sydd ar gael i Sipsiwn-Crwydrol ifanc yw hunangyflogaeth, gweithio mewn busnesau teuluol, neu waith dros dro/ysbeidiol. Caiff Sipsiwn-Crwydrol eu magu i fod yn fentergar. Mae eu busnesau mewn sectorau megis ailgylchu gwastraff yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi Gymreig. A ddylid gwneud ymchwil i anghenion Sipsiwn-Crwydrol ifanc o ran gwaith? Yn ogystal, a ddylai cyrff sy'n hyrwyddo datblygiad economaidd lleol megis awdurdodau lleol, Awdurdod Datblygu Cymru neu Gyswllt Busnes ddarparu cyngor a chefnogaeth i fusnesau Sipsiwn-Crwydrol?

## Iechyd

15. Yn drydydd, yn nhermau iechyd mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod gan Sipsiwn-Crwydrol ddisgwyliad einioes is na'r boblogaeth yn gyffredinol, eu bod yn dioddef o gyfraddau marwolaethau babanod uchel, yn cael mwy o ddamweiniau, yn dioddef mwy o hunanladdiadau ac yn cael mwy o broblemau iechyd yn gyffredinol. Mae ffordd o fyw y Sipsi-Crwydrol yn golygu nad ydynt yn cael elwa ar ddilyniant o ran gofal, a chyfraddau isel o frechu rhag clefydau. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod sefydliadau iechyd yng Nghymru yn rhoi blaenoriaeth weddol isel i iechyd Sipsiwn-Crwydrol. Nododd adolygiad diweddar o iechyd a lles a wnaethpwyd i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol nad oedd yr un o'r sefydliadau sy'n gysylltiedig â materion iechyd yn gweithio'n rheolaidd gyda Sipsiwn-Crwydrol. Argymhellodd y dylai sefydliadau iechyd roi mwy o bwyslais ar iechyd Sipsiwn-Crwydrol. Ceir problemau hefyd gyda throsglwyddo cofnodion Meddygon Teulu a chyfleon cyfyngedig i fanteisio ar addysg iechyd. Gallai problemau iechyd Sipsiwn-Crwydrol gael eu lliniaru wrth i Feddygon Teulu a Deintyddion gael eu talu i'w trin fel trigolion dros dro; sefydlu gwasanaethau maes yn canolbwyntio ar safleoedd Sipsiwn-Crwydrol; a datblygu ffordd o fynd at eu cofnodion meddygol, ar-lein. Byddai'r dulliau gweithredu hyn yn golygu gwneud taliadau ychwanegol i Feddygon Teulu a Deintyddion, gan achosi gwariant ar greu systemau cofnodion cleifion Meddygon Teulu a Deintyddion electronig a newid y trefniadau presennol mewn perthynas â mynd at gofnodion cleifion. Mae tystiolaeth o du allan i Gymru yn awgrymu y gellir mynd i'r afael â phroblemau iechyd grwpiau dan anfantais ond bod hyn yn gofyn am fuddsiddiad ychwanegol sylweddol. Ymddengys hefyd bod rhywfaint o dystiolaeth o gamwahaniaethu sefydliadol yn erbyn Sipsiwn-Crwydrol lle bo meddygon

yn gwrthod eu cofrestru neu eu trin gan yr ystyrir yn aml eu bod yn mynd â llawer iawn o amser Meddygon Teulu a'u bod yn "gleifion anodd" sydd ddim yn gwneud apwyntiadau nac yn cadw atynt.

16. Mae Deddf y GIG (Gofal Sylfaenol) 1997 yn darparu'r cyfle i addasu trefniadau gofal sylfaenol er mwyn diwallu anghenion lleol penodol nad ydynt yn cael eu diwallu yn llawn ar hyn o bryd. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddar wedi cyhoeddi canllawiau i Awdurdodau Iechyd, Grwpiau Iechyd Lleol a Meddygon Teulu ar baratoi cynlluniau datblygu lleol o dan Adran 36 Deddf 1997. Gellir defnyddio'r cynlluniau i ddiwallu anghenion lleol adnabyddadwy, gan gynnwys anghenion grwpiau penodol megis Sipsiwn-Crwydrol a'r digartref. Gellid defnyddio'r cynlluniau, er enghraifft, i gymell Meddygon Teulu i helpu Sipsiwn-Crwydrol sy'n ymweld â'r ardal. Fodd bynnag bydd angen cefnogaeth y Pwyllgor Meddygol Lleol perthnasol a pharodrwydd Meddygon Teulu lleol ar gynllun llwyddiannus er mwyn gwneud y gwaith ychwanegol arfaethedig.

17. Yn ogystal, o dan Ddeddf 1997 ceir y posibilrwydd o gyflwyno cynlluniau peilot ym maes gofal sylfaenol, gan gynnwys cytuno contractau gyda Meddygon Teulu i ddarparu gwasanaethau ychwanegol i Sipsiwn-Crwydrol a grwpiau eraill, gan gynnwys sefydlu meddygfeydd teithiol. Mae'r mecanwaith hwn wedi profi'n effeithiol yn Lloegr lle mae adnoddau gweinyddol a rhaglen sylweddol wedi cael eu clustnodi i gynlluniau peilot. Mae dyfodol cynlluniau peilot yn ansicr. Gallai'r fenter gael ei gwneud yn afraid wrth i drafodaethau newydd ddechrau ar gontract newydd Meddygon Teulu.

18. Mater i'r Awdurdodau Iechyd, y Grwpiau Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaethau fyddai penderfynu eu cyflwyno ai peidio a pha wasanaethau penodol y dylid eu darparu er mwyn diwallu anghenion eu hardal. Mae posibilrwydd, megis yn achos grantiau Adran 488, y gellid cynnwys yr arian ar gyfer cynlluniau peilot ym maes gofal sylfaenol mewn grant amddifadedd cymdeithasol newydd arfaethedig. Pa un bynnag, mae'r galwadau ar arian Adran 36 a phob cyllideb iechyd yn fawr ar hyn o bryd.

19. A oes angen adolygu anghenion iechyd Sipsiwn-Crwydrol ac achosion marwolaeth annhymig? A ddylai'r Cynulliad fynnu bod y GIG yn darparu gwasanaethau i Sipsiwn-Crwydrol? Os felly, pa adnoddau y bydd eu hangen i ariannu'r gwasanaethau newydd a denu staff meddygol, deintyddol a nyrsio ychwanegol? A ddylai'r gwasanaethau hyn gael eu darparu yn benodol i Sipsiwn-Crwydrol neu fod yn rhan o amrediad ehangach o wasanaethau i grwpiau dan anfantais? Mae'r Cynulliad o dan bwysau i ddarparu gwasanaethau wedi'u teilwra i grwpiau eraill megis y digartref, ffoaduriaid, camddefnyddwyr cyffuriau a phobl hyn.

A ddylid targedu hybu iechyd ac addysg iechyd ar Sipsiwn-Crwydrol ar faterion megis yr angen i frechu, datblygu plant, atal damweiniau a materion iechyd menywod?

## Llety

20. Yn bedwerydd, y ddarpariaeth o lety. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw wybodaeth ar gael am y nifer o safleoedd i grwydrwyr sy'n cael eu rheoli gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r safleoedd hyn, o bosibl, wedi'u lleoli ar gyrion trefi, ymhell o ysgolion a chludiant cyhoeddus, ac yn agos at safleoedd

diwydiannol a safleoedd claddu sbwriel neu ardaloedd sy'n dioddef o broblemau amgylcheddol. Ychydig iawn o gyfleusterau a gwasanaethau sydd ar safleoedd Sipsiwn-Crwydrol ac maent yn aml yn dioddef o broblemau'n ymwneud â draenio. A ddylid darparu cyngor i awdurdodau lleol a darparwyr safleoedd eraill ar leoliad, math a phatrwm cyfleusterau a fyddai'n diwallu gofynion crwydrwyr?

21. Cefnodd Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 ar unrhyw gyfraniad gan y sector cyhoeddus o ran darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn-Crwydrol. Mae gan y ddarpariaeth o safleoedd ar gyfer Sipsiwn-Crwydrol, fodd bynnag, rôl bwysig o ran eu hannog i beidio â gwersylla heb ganiatâd. Yng Nghymru, rhyw 4% o deuluoedd yn unig sy'n byw ar safleoedd preifat, naill ai safleoedd teuluol bychain, hunanddatblygedig, neu safleoedd mwy a ddatblygwyd ac a reolir gan berchnogion safleoedd sy'n Sipsiwn-Crwydrol eu hunain, fel nad oes ganddynt unrhyw opsiwn ond defnyddio safleoedd awdurdodau lleol neu droi at dai cymdeithasol i gael llety. Yn Lloegr, ar y llaw arall, mae oddeutu 50% o deuluoedd Sipsiwn-Crwydrol yn byw ar safleoedd sector preifat. Er bod Cylchlythyr 76/94 - "Gypsy Sites Policy and Unauthorised Camping" yn mynnu y dylai awdurdodau lleol gynnal eu safleoedd carafanau ar gyfer Sipsiwn-Crwydrol neu eu prydlesu i eraill sy'n fodlon eu cynnal, nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael ar gyflwr y safleoedd hyn yng Nghymru. Yn Lloegr mae'r Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau (DTLR) yn bwriadu darparu £17m i awdurdodau lleol dros y cyfnod 2001-2004 er mwyn gwella cyfleusterau mewn nifer o safleoedd a chadw'r rhwydwaith presennol o safleoedd ar agor. Mae'r DTLR hefyd yn bwriadu gwneud ymchwil er mwyn creu darlun o'r safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn-Crwydrol sydd ar gael, a'u cyflwr, er mwyn goleuo proses y gyllideb. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd yng Nghymru i ddilyn y DTLR drwy ddarparu adnoddau ychwanegol. A ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu'r fath adnoddau ariannol a gwneud ymchwil cyffelyb?

22. Mae polisïau cynllunio'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu nodi yng Nghylchlythyr 2/94 -"Gypsy Sites and Planning". Mae hwn yn annog awdurdodau lleol i wneud darpariaeth ar gyfer safleoedd Sipsiwn-Crwydrol yn eu cynllun datblygu unedol a thrafod eu hanghenion o ran llety gyda Sipsiwn-Crwydrol eu hunain, gyda golwg ar ddynodi lleoliadau addas ar gyfer safleoedd, boed yn safleoedd awdurdodau lleol neu yn safleoedd preifat, mewn cynlluniau, ble bynnag y bo modd. Lle nad oes modd dynodi lleoliadau addas, rhaid i awdurdodau lleol ddiffinio meini prawf clir a realistig ar gyfer lleoliadau addas. Mae gwrthwynebiad o du'r cyhoedd yn aml yn ei gwneud hi'n anodd cael caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd i Sipsiwn-Crwydrol neu gynnwys safleoedd o'r fath mewn cynlluniau datblygu.

23. A ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol ailadrodd y cyngor hwn i awdurdodau cynllunio lleol ?

A oes achos i'r Cynulliad symud yn ôl i system o orfodi awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd? Byddai hyn yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol ac amser Seneddol, sy'n debygol o fod yn brin hyd y gellir rhagweld, neu a ddylai'r Cynulliad hwyluso'r ddarpariaeth o safleoedd preifat drwy, er enghraifft, y gymuned grwydrol ei hunain. Yng Nghymru mae canran isel poblogaeth y Sipsiwn Crwydrol sy'n byw ar ystadau preifat yn awgrymu na all pob Sipsiwn Crwydrol fforddio prynu eu tir eu hunain neu nad ydynt eisiau gwneud hynny.

## Plismona

24. Mae'r ystyriaeth olaf yn ymwneud â phlismona Sipsiwn-Crwydrol. Mae pryderon wedi'u mynegi gan fudiadau sy'n cynrychioli Sipsiwn-Crwydrol ynghylch archwiliadau gormodol o gerbydau crwydrwyr, stopio a chwilio unigolion, cwynion am fygythion, a bod yr heddlu yn dangos diffyg ymwybyddiaeth a diffyg goddefgarwch tuag at ffordd o fyw y Sipsi-Crwydrol. Mae'r heddlu yn sensitif i anghenion y grwpiau lleiafrifol ac roeddent yn chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu, gyda'r DETR, canllawiau ar deithwyr. Maent wedi sefydlu unedau cymorth i grwpiau lleiafrifol sy'n cydweithio â chynrychiolwyr Sipsiwn Crwydrol. Mae'r heddlu'n darparu hyfforddiant i'w staff gyda chymorth gan gyrff allanol.

25. A yw'r hyfforddiant a ddarperir i'r heddlu ar ddiwylliannau'r Sipsi-Crwydrol yn ddigonol? A wneir darpariaeth benodol ar gyfer ystyriaethau Sipsiwn-Crwydrol yn nisgrifiadau swydd Swyddogion Cydraddoldebau mewn awdurdodau heddlu? A ddylid gwella'r cysylltiadau rhwng yr heddlu a Sipsiwn-Crwydrol? A oes achos dros ariannu swyddogion hawliau cyfreithiol Sipsiwn-Crwydrol?

26. Â chysylltiad agos â darparu safleoedd a phlismona y mae'r polisi o ymateb i wersylla heb ganiatâd. Mae awdurdodau lleol yn derbyn niferoedd sylweddol o gwynion gan y cyhoedd am y problemau sy'n deillio o wersylla heb ganiatâd gan bobl grwydrol. Mae Cylchlythyr 76/94 yn cynghori awdurdodau lleol i ganiatáu presenoldeb Sipsiwn-Crwydrol ar dir am gyfnodau byr ac edrych ar ddulliau o leihau unrhyw niwsans drwy, er enghraifft, ddarparu gwasanaethau sylfaenol. Mae hefyd yn annog awdurdodau i ddynodi mannau aros posibl mewn argyfwng mor agos â phosibl at y llwybrau tramwy a ddefnyddir gan Sipsiwn-Crwydrol a darparu gwasanaethau yno. Yn ogystal, mae'r Cylchlythyr yn cynghori awdurdodau lleol i ddefnyddio eu pwerau troi allan yn drugarog ac yn dosturiol. Mae pwysau sylweddol ar y Swyddfa Gartref i gryfhau'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol i symud pobl sy'n gwersylla heb ganiatâd. Mae llywodraeth y DU yn credu y byddai gwneud hynny yn wrthgynhyrchiol gan y gallai, o bosibl, ddod â'r llywodraeth i wrthdrawiad â llysoedd yn y wlad hon ac â Llys Ewrop. Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei gwneud hi'n bosibl i Sipsiwn-Crwydrol herio ymyriad â'u hawliau. Po gryfaf yw'r pwerau gorfodi sydd ar gael i awdurdodau lleol ac i'r Heddlu y mwyaf anodd y gallai fod iddynt berswadio'r Llysoedd i ganiatáu iddynt arfer y pwerau. Safbwynt Llywodraeth y DU yw bod gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau lleol, Yr Heddlu ac asiantaethau eraill fel a amlinellir yng nghanllawiau ymarfer da Adran Drafnidiaeth, yr Amgylchedd a'r Rhanbarthau (DETR)/Swyddfa Gartref ar reoli gwersylla heb ganiatâd yw'r allwedd i ymdrin â'r broblem o wersylla heb ganiatâd. Mae ymchwil gan y Swyddfa Gartref yn mynd rhagddi ar hyn o bryd i fonitro effeithiolrwydd y canllawiau a chanfod beth arall fydd ei angen, o bosibl.

27. Mae Llywodraeth y DU yn arbennig o awyddus i fynd â'r afael â'r ymddygiad anghymdeithasol a throseddol sy'n gysylltiedig â rhai gwersylloedd anawdurdodedig. Cyhoeddodd y DETR gylchlythyr ym mis Gorffennaf 2000 a diwygiadau i'r canllawiau ymarfer da gan wahaniaethu rhwng gwersylla heb ganiatâd lle bo ymddygiad anghymdeithasol a throseddol. Nid yw'r cylchlythyr hwn wedi'i gyhoeddi yng Nghymru er bod yr heddlu a chyrff eraill yn gweithredu yn unol â'r dull a nodir ynddo.

28. Dywed y Cylchlythyr, lle bo ymddygiad anghymdeithasol, y dylid cymryd camau buan ac effeithiol i

ymdrin ag ef, a lle bo hynny'n briodol, symud y gwersyllwyr. Dywed y cyngor ei bod yn gyfreithlon i awdurdod lleol arfer y pwerau hyn lle bo Sipsiwn-Crwydrol sydd yn gwersylla yn anghyfreithlon yn gwrthod symud i safle awdurdod lleol awdurdodedig. Lle nad oes safleoedd o'r fath ar gael a lle nad yw'r gwersyll anawdurdodedig yn peri niwsans na ellid ei reoli yn effeithiol, dylai'r awdurdod lleol ystyried darparu gwasanaethau sylfaenol, megis dwr yfed, toiledau, sgipiau ac yn y blaen. Dyma'r dull gweithredu y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei fabwysiadu mewn perthynas â gwersylloedd ar ei dir ei hun. Fodd bynnag, lle bo'r gwersylloedd anawdurdodedig ar dir priffyrdd gweithredol, megis cilfannau parcio, mae Cyfarwyddiaeth Priffyrdd y Cynulliad yn mynnu bod eu hasiantau, yr awdurdodau lleol yn cymryd camau ar unwaith.

A ddylai Cylchlythyr y DETR a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2000 gael ei gyhoeddi yng Nghymru? A ddylai'r berthynas rhwng diffyg mannau aros a gwersylloedd anawdurdodedig gael ei harchwilio yng Nghymru? A oes materion Gwerth Gorau i awdurdodau lleol yn codi o wersylloedd anawdurdodedig?

## POLISI'R CYNULLIAD I'R DYFODOL TUAG AT GRWYDRWYR

29. Rhennir polisïau'r Cynulliad Cenedlaethol tuag at Sipsiwn-Crwydrol a grwpiau lleiafrifol eraill ar hyn o bryd yn ddau fath. Mae'r cyntaf yn trin Sipsiwn-Crwydrol fel grwpiau eraill dan anfantais o fewn y boblogaeth yn gyffredinol. Mae'r ail yn cydnabod eu hanghenion gwahanol. Ceir dadl ar hyn o bryd ar sut y dylai'r egwyddor cyfle cyfartal weithredu o fewn y Cynulliad, ond ymddengys mai'r consensws yw y dylai polisi'r Cynulliad geisio adlewyrchu anghenion grwp penodol.

30. Os gweithredir fel hyn, mae Sipsiwn-Crwydrol yn wynebu problem, yn deillio i raddau helaeth o'u hanweledigrwydd presennol. Fel y dangosodd yr astudiaeth ar addysg Sipsiwn-Crwydrol, nid oes unrhyw wybodaeth am niferoedd Sipsiwn-Crwydrol ers i gyfrifiadau chwemisol y cyn Swyddfa Gymreig ddod i ben ym 1997, a oedd yn canolbwyntio ar elfen symudol poblogaeth y Sipsiwn-Crwydrol. Parheir i gynnal y cyfrifiadau chwemisol yn Lloegr. Yng Nghymru parhaodd rhai awdurdodau lleol i gynnal cyfrifiadau yn eu hardaloedd ond nid oedd unrhyw ymgais i gyflwyno'r wybodaeth ar lefel Cymru gyfan neu gytuno ar ddull safonol o gasglu'r wybodaeth. O ganlyniad nid yw'r broses o gasglu gwybodaeth yn un gyson ac y mae'n dibynnu ar a yw staff ar gael ai peidio i wneud yr arolygon. Mae'n bosibl bod achos cryf dros ddechrau'r arolygon chwemisol eto yng Nghymru, ond gyda methodoleg newydd sy'n casglu gwybodaeth ar y poblogaethau symudol a sefydlog er mwyn darparu amcangyfrif mwy realistig o niferoedd i ddibenion polisi. Mae angen rhoi ystyriaeth i sut y gellir gwneud hyn.

31. Yn ychwanegol at y diffyg gwybodaeth am faint poblogaeth y Sipsiwn-Crwydrol ymddengys bod rhywfaint o dystiolaeth o elyniaeth tuag at Sipsiwn-Crwydrol a chamwahaniaethu yn eu herbyn, gyda'r canlyniad eu bod yn cael eu hystyried yn broblem gan unigolion a sefydliadau. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth am ddiwylliant y Sipsi-Crwydrol a'u ffordd o fyw yn awgrymu y gallai fod achos dros ymgyrch i herio'r camwahaniaethu yn eu herbyn, yn enwedig mewn meysydd gwasanaeth allweddol megis iechyd, addysg, cyflogaeth, y ddarpariaeth o lety, ac o bosibl, gwasanaeth yr heddlu.

32. Mae'r adolygiadau pellgyrhaeddol o brif feysydd polisi'r Cynulliad sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yn awgrymu ei bod yn adeg dda yn awr i fudiadau Sipsiwn-Crwydrol gyfrannu at broses llunio polisïau'r Cynulliad. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yn genedlaethol ar adolygiad o bolisi cynllunio yng Nghymru, ar faterion sy'n ymwneud â rhoi llety i grwpiau lleiafrifol, ac ail-strwythuro'r GIG yng Nghymru. Yn lleol, mae awdurdodau lleol yn cychwyn ar y broses o baratoi strategaethau cymunedol. Mae hyn yn rhoi cyfle i fudiadau Sipsiwn-Crwydrol amlygu'r meysydd hynny sy'n bwysig iddynt hwy.

33. Ystyriaeth gyffredinol arall yw canfod y dull gorau o ddarparu cefnogaeth ariannol i awdurdodau er mwyn eu helpu i ddiwallu anghenion Sipsiwn-Crwydrol - a ddylai bod grantiau penodol ar eu cyfer neu a ddylai grantiau, megis y grant Adran 488 gael eu cynnwys mewn cronfeydd mwy a fyddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill ynghylch sut y defnyddir yr arian. Ochr negyddol y broses hon, o bosibl, fyddai llai o arian i ddiwallu anghenion penodol Sipsiwn-Crwydrol.

34. Yn olaf, mae angen nodi, ystyried, a lle bo hynny'n briodol, mabwysiadu'r ymarferion da wrth ddatblygu cydberthnasau â Sipsiwn-Crwydrol a ddatblygwyd mewn awdurdodaethau eraill megis Gweriniaeth Iwerddon, Gogledd Iwerddon, Yr Alban ac mewn mannau eraill yn Ewrop.

## CASGLIAD

35. Mae'r papur hwn wedi awgrymu bod angen ymagwedd fwy integredig tuag at Sipsiwn-Crwydrol ar draws y Cynulliad. Awgryma y dylai'r Pwyllgor ystyried a oes angen am:

- ystadegau ar y nifer o Sipsiwn-Crwydrol/ safleoedd Sipsiwn-Crwydrol a Sipsiwn-Crwydrol mewn addysg yng Nghymru;
- darpariaeth benodol er mwyn diwallu anghenion Sipsiwn-Crwydrol yn y meysydd gwasanaeth hynny megis y gwasanaethau cymdeithasol lle na wneir unrhyw ddarpariaeth benodol ar eu cyfer ar hyn o bryd;
- i'r Cynulliad wneud darpariaeth er mwyn diwallu anghenion penodol Sipsiwn-Crwydrol o ran addysg, hyfforddiant a iechyd a darparu cyngor a chefnogaeth i fusnesau Sipsiwn-Crwydrol;
- i'r Cynulliad ddarparu adnoddau er mwyn uwchraddio safleoedd Sipsiwn-Crwydrol yng Nghymru a chynyddu'r ddarpariaeth o lety ar eu cyfer;
- adolygiad o'r cwestiwn a ddylai cefnogaeth i Sipsiwn-Crwydrol fod ar ffurf grantiau penodol.

36. Argymhellir:

- bod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn adolygu polisïau'r Cynulliad mewn perthynas â Sipsiwn-Crwydrol, gan gymryd tystiolaeth gan fudiadau ac unigolion perthnasol, a lle bo angen, comisiynu ymchwil perthnasol. (Ceir rhestr gychwynnol o'r unigolion a'r mudiadau hynny y byddai'r Pwyllgor, o bosibl, yn dymuno eu gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar yn Atodiad 1);
- yn ystyried enghreifftiau o ymarfer da a ddatblygwyd mewn awdurdodaethau eraill o ran eu perthnasedd i Gymru; ac

- yn gwneud argymhellion priodol i Weithrediaeth y Cynulliad.

Swyddog Cyswllt: Ian Thomas, Adran Moderneiddio Llywodraeth Leol

## ATODIAD 1

## MUDIADAU ALLANOL A ALLAI DDARPARU TYSTIOLAETH I'R PWYLLGOR

Gallai'r mudiadau allanol y gallai'r Pwyllgor gysylltu â hwy gan ofyn iddynt gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu ddarparu tystiolaeth ar lafar ar ystyriaethau sy'n ymwneud â Sipsiwn-Crwydrol gynnwys y canlynol:

- Ymddiriedolaethau Iechyd Cymreig
- Meddygon Teulu
- Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a swyddogion cynllunio awdurdodau lleol unigol
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithasau sy'n cynrychioli cynghorau cymuned a chynghorau unigol
- Yr Heddlu
- Achub y Plant
- Plant yng Nghymru
- Gweithwyr proffesiynol ym meysydd Gwasanaethau Cymdeithasol ac addysg mewn llywodraeth leol
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Swyddogion cyswllt Sipsiwn-Crwydrol
- Estyn ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Uned Ymchwil i Gyfraith Crwydrwyr, Ysgol y Gyfraith, Caerdydd
- Grwp Safleoedd Sipsiwn Caerdydd
- ELWA a'r Gwasanaeth Gyrfaoedd
- Swyddogion Gweithrediaeth yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Gallai aelodau o'r Pwyllgor ymweld â Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon er mwyn edrych ar eu dulliau gweithredu hwy mewn perthynas â Sipsiwn-Crwydrol
- Cyngor Cenedlaethol y Sipsiwn
- Cyngor y Sipsiwn
- ACERT
- NATT
- Cyfeillion a Theuluoedd Crwydrwyr
- Bias
- Yr Athro Thomas Acton, Prifysgol Greenwich
- STEP, Sefydliad Addysg, Prifysgol Heriot -Watt, Caeredin
- Canolfan Crwydrwyr Pavee Point, Dulyn
- Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon